CYNGOR CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

<table>
<tr><td colspan="3">Cofnodion cyfarfod 9fed o Ebrill 2025 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr</td></tr>
<tr><td colspan="3">PRESENNOL</td></tr>
<tr><td colspan="2">Bethan Holding</td><td>Gwilym Evans (Cadeirydd)</td></tr>
<tr><td colspan="2">Helen Sharp</td><td>Aled Hughes</td></tr>
<tr><td colspan="2">Emlyn Baylis</td><td>Louise Price</td></tr>
<tr><td colspan="2">Iola Owen</td><td>Trystan Thomas</td></tr>
<tr><td colspan="2">Kim Jones</td><td></td></tr>
<tr><td>1.</td><td colspan="2">GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU</td></tr>
<tr><td></td><td>Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Gwilym Evans. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol, Cynghorydd Rhys ap Gwilym, Cynghorydd Llinos Haf Pritchard, Cynghorydd Iwan Harding. Cyflwynodd y Cynghorydd Sir ei adroddiad ac os oedd cwestiwn yna roedd yn fodlon i'w ateb.<br><br>Cafwyd gyflwyniad llafar gan Heddlu Gogledd Cymru ar y sefyllfa troseddu yng Ngogledd Cymru a hefyd yn benodol yn ardal Llanberis. Bydd y Cyngor Cymuned yn mynd ati rŵan i drafod sustem camerâu o fewn y pentref. Gobeithir trafod hwn yn mis Mehefin.</td><td>CLERC</td></tr>
<tr><td>1.1</td><td>Cafwyd cyfranogiad gan ddwy aelod o'r gymuned. Fe cyflwynwyd eu pryderon ar y pynciau canlynol: Defaid o fewn y pentref, cyflymdra ar hyd Stryd Fawr Llanberis gan gynnwys arwyddion 20 m.a.y. a chwyn o fewn Llyn Padarn. Mae ystyriaeth y Cyngor ar y pynciau wedi ei gofnodi isod.</td><td></td></tr>
<tr><td>1.2</td><td>Llinellau Melyn Ffordd Capel Coch. Penderfynwyd cynnal cyfarfod cyhoeddus i drigolion yr ardal ar y 30ain o Ebrill 2025 er mwyn gwrando ar y pryderon o gyflwyno neu beido a chyflwyno llinellau melyn gyferbyn a'r capel.<br><br>Cofnodion cyfarfod arbennig ar gyfer trafod cyflwyno llinellau melyn gyferbyn a Festri Capel Coch, Ffordd Capel Coch Llanberis.<br><br>Daeth 20 o drigolion ynghyd a derbyniwyd 2 ymddiheuriad.<br><br>Yn bresennol ar ran y Cyngor: Beth Holding, Gwilym T Evans, Helen Sharp a Iola Owen.<br><br>Rhoddwyd gyfle i ochr cefnogi y bwriad i gyflwyno y rhesymau paham mae angen llinellau melyn. Nid oedd neb yn bresennol ar gyfer gwrthwynebu'r bwriad yn y cyfarfod ond fe ddaeth trigolyn yn hwyr ac fe gafodd rhoi ei sylwadau i'r cynghorwyr oedd yn bresennol.<br><br>Ystyriodd aelodau'r cyngor safbwynt y ddwy ochr a phenderfynwyd cefnogi'r bwriad ar sail diogelwch ffordd ar gyfer defnyddwyr y ffordd ac yn spesiffig i warchod cerddwyr (yn enwedig plant yr ysgol gynradd).</td><td>Clerc</td></tr>
<tr><td>1.3</td><td>Arwyddion 20 m.y.a. – fe drafodwyd y mater hwn gan gymryd i fewn sylwadau'r cyhoedd oedd yn bresennol. Mae archwiliad y safle wedi</td><td>Clerc</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | ei drefnu gan swyddogion traffig Cyngor Gwynedd i edrych os yw lleoliadau'r arwyddion yn briodol . Oherwydd honiad bod gorr-yrru ar hyd y Stryd Fawr yn enwedig o'r gyffordd y ffordd osgoi ochr Gaernarfon a'r V12 penderfynwyd bod y Clerc yn anfon cais am fesurydd traffig gan yr uned Draffig Cyngor Gwynedd. | |
| **1.4** | Defaid – trafodwyd y mater yma unwaith yn rhagor. Cyflwynwyd ymateb Cyngor Gwynedd i sut mae delio a'r broblem gan ddefnyddio deddfau sydd yn bodoli hyd yma. Penderfynwyd bod y Clerc yn anfon at Swyddogion Traffig gyda cais i osod arwyddion rhybydd bod defaid yn y briffordd. Hefyd rhoddwyd cadarnhad bod bugail lleol wedi cadarnhau y bydd yn gweithredu ar ran y Cyngor Cymuned i hel y defaid ar gais y Cadeirydd neu'r Clerc yn unig pan fo rhif y defaid sy'n crwydro yn niferus. | **CLERC** |
| **1.5** | Toiledau – mae nifer o sylwadau a chwynion wedi dod i law ynglŷn a'r toiledau oherwydd eu bod wedi bod a'r gau yn ddiweddar. Cafwyd wybodaeth gan y gwasanaeth bod camgymeriad dyddiadau wedi bod. Roedd dyddiadau gwyliau y person glanhau, agor a chau arferol wedi ei nodi yn anghywir gan y person oedd yn gweithredu wrth gefn. Mae sylwadau hefyd wedi eu derbyn nad yw'r toiledau yn agor mewn pryd yn y boreau yn enwedig ar penwythnosau. Penderfynwyd byddai'r Clerc yn anfon at y swyddogion i gynnig gweithredu fel y llynedd lle byddai aelodau'r Cyngor yn agor y toiledau drwy'r Haf. | **Clerc** |
| **1.6** | Chwyn o fewn y Llyn – rhoddwyd eglurhad i'r cyhoedd oedd yn bresennol bod y mater yma yn derbyn sylw Parc Padarn a'r bwriad oedd gosod hessian mats arno er mwyn ei reoli. Penderfynwyd anfon at Swyddog Parc Padarn i gael gwybod beth yw'r diweddaraf ar y cynllun hwn. | **CLERC** |
| **1.7** | Cae Chwarae Dol Elidir – cafwyd adroddiad lafar bod y cae yn cael ei ddefnyddio gan dristiaid ar gyfer gwneud barbeciws ar gyfer nifer fawr o bobl. Mae pryderon byddai fath ddefnydd o'r cae yn gallu cynnau tân. Y Clerc i anfon at Swyddogion Cyngor Gwynedd gyda cais am arwydd "Dim Barbeciws". | **CLERC** |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| **3.1** | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Mawrth 2025 a'u derbyn. | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Mawrth 2025 | |
| **4.2** | Bin sbwriel Cae Chware Lan Llyn. Dim dilyniant ar y mater hyd yma. Y Clerc i wneud ymholiadau. | **CLERC** |
| **4.3** | Cerflun Stryd/Coffa Chwarelwyr - Dim dilyniant ar y mater wedi bod yn ddiweddar. Mae Swyddogion Cyngor Gwynedd yn edrych ar leoliadau eraill. | **CLERC** |
| **4.4** | Storfa y Cyngor – mae cyfarfod gyda swyddog Sant Ioan a'r Clerc wedi ei gynnal er mwyn trafod defnydd a chostau y storfa. Mae'r | **CLERC** |

| | | |
|---|---|---|
| | cynrychiolydd bellach angen fynd a'r wybodaeth at swyddogion Pencadlys Sant Ioan, bydd yn dod yn ôl at y Cyngor Cymuned cyngynted a bydd wedi derbyn gwybodaeth. | |
| **4.5** | Campfa Awyr Agored – cafwyd wybodaeth nad oedd angen hawl cynllunio i'r campfa. Nid oes dilyniant wedi bod ar gyfer prydles i'r tir er mwyn gosod y gampfa. Y Clerc i anfon at Swyddog Parc Pdarn i holi am y brydles. | **CLERC** |
| **5.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| **5.1** | | **CLERC** |
| **6.0** | **Y FYNWENT** | |
| | Dim adroddiad | **CLERC** |
| **7.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| **7.1** | Rhif Cais: C24/0751/15/CR<br>Lleoliad:Engine Shed, Rheilffordd Yr Wyddfa, Llanberis, Gwynedd, LL55 4TT<br>Bwriad: Amnewid yr holl ffenestri a drysau pren a haearn gyda rhai plastig, a'r cladin pren<br>presennol gyda rhai composite.<br>**DIM GWRTHWYNEBIAD** | **CLERC** |
| **7.2** | Rhif Cais : C25/0248/15/DT<br>Lleoliad : 7 Fron Goch, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4LE<br>Bwriad :Gosod Pwmp Gwres Riello<br>**DIM GWRTHWYNEBIAD** | **CLERC** |
| **7.3** | Rhif Cais: C25/0255/15/LL<br>Lleoliad: Royal Victoria Hotel, Llanberis, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4TY<br>Bwriad: Gosod cyfarpar solar 106 kW ar dir Gwesty'r Royal Victoria<br>Trafodwyd y cais gan y Cyngor ac wedi'r drafodaeth penderfynwyd cynnal pleidlais – canlyniad 5 pleidlais cefnogol, 3 pleilais gwrthwynebu a 2 yn ymatal. Canlyniad y bleidlais – **DIM GWRTHWYNEBIAD** | **CLERC** |
| **8.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL** | |
| **8.1** | Aelodaeth o'r grŵp i'w gael ei adolygu yn y cyfarfod blynyddol lle bydd aelodaeth y pwyllgor yn cael eu penderfynu. | |
| **9.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| | Dim adroddiadau | |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 9 yn y r hwyr. | |
| **Llofnod:** | *Beth Holding* | **Dyddiad:** |